

Ymarferiad 1: Canllawiau i Athrawon

Edrych ar y Ffynhonnell

Pwrpas yr ymarferiad hwn yw sicrhau bod y myfyrwyr yn dechrau ystyried sut mae dadansoddi deunydd maen nhw'n ei ddarllen. Dyw nodi'r hyn sy'n cael ei ddweud ddim yn ddigon; mae rhaid iddyn nhw feddwl am bethau eraill hefyd! **Ewch dros y cwestiynau ar y dudalen Dadansoddi Ffynhonnell yn yr adran PETHAU I'W GOFYN.**

Pethau i'w Gofyn:

1. Pwy sy'n ysgrifennu? Os nad ydych chi'n gwybod eu henw, ydych chi'n gwybod beth yw eu gwaith? Beth mae hynny'n ei ddweud wrthy ch chi am y ffynhonnell? Colofn mewn papur newydd yw'r ffynhonnell – wedi'i llunio gan newyddiadurwr. Beth mae'r myfyrwyr yn ei wybod am newyddiaduraeth broffesiynol? Anogwch nhw i feddwl am y gwahaniaeth rhwng newyddiadurwr yn llunio adroddiad o'i gymharu ag aelod o'r cyhoedd, neu rywun sydd mewn swydd wahanol. Dylai'r myfyrwyr feddwl am y cyfryngau – allwn ni ymddiried yn y cyfryngau bob amser? Allan nhw feddwl am enghreifftiau pryd gallwch chi/na allwch chi ymddiried yn yr hyn mae'r cyfryngau'n ei ddweud? Beth yw arwyddocâd hynny o ran y ffynhonnell maen nhw'n ei darllen? Ddylen nhw ei chwestiynu neu beidio? **[Rhaid cwestiynu ffynonellau BOB AMSER!!!]**

2. **Pa mor wrthrychol neu ddiuedd yw'r awdur?** I wybod hynny, edrychwch ar deitl y papur newydd. Ydy e'n debygol o edrych yn gadarnhaol ar ddiwygio a newid cymdeithasol, neu'n negyddol? Darllenwch y testun cyfan. Ydy e'n gadarnhaol neu'n negyddol? Beth mae hynny'n ei ddweud wrthy ch chi am wrthrychedd y ffynhonnell ac i ba raddau gallwch chi ymddiried ynddi? Dyfyniad yw'r ffynhonnell o'r *London Dispatch and People's Social and Political Reformer*. Ydy'r myfyrwyr yn gwybod beth yw 'Diwygiwr'/'Reformer'? Ydyn nhw'n deall y gwahaniaeth rhwng gwleidyddiaeth asgell chwith ac asgell dde? Fwy na thebyg, bydd unrhyw beth sy'n derbyn sylw cadarnhaol mewn papur newydd asgell chwith fel hwn yn trafod newid cymdeithasol a newid gwleidyddol, sydd o fudd i bobl o'r dosbarth gweithiol. Go brin y byddan nhw'n cyfeirio at newyddion drwg ynghylch y cyfarfodydd, a'u nod fydd portreadu Mudiad y Siartwyr mewn modd cadarnhaol.

3. **Pryd cafodd ei hysgrifennu?** Ai sôn am ddigwyddiadau cyfoes y mae, neu oedd y materion dan sylw wedi digwydd ymhell cyn i'r ffynhonnell gael ei llunio? Sut gallai hynny effeithio ar y ffynhonnell? Mae'r papur newydd yn adrodd am ddigwyddiadau cyfoes, felly yn ôl hanes tystion uniongyrchol fwy na thebyg, a buasai'r newyddiadurwyr yn bresennol adeg y cyfarfodydd yn cymryd nodiadau. Mae'n fwy

tebygol eu bod wedi cofnodi pethau'n gywir oherwydd eu bod yno, ond go brin eu bod wedi gweld neu glywed popeth ddigwyddodd. Dim ond ychydig o le oedd ganddyn nhw i lunio'u hadroddiad hefyd, felly mae'n bosib eu bod wedi gadael pethau allan!

4. **Pa fath o ffynhonnell yw hi?** Proffesiynol? Cyfreithiol? Crefyddol? Gwleidyddol? Er Gwybodaeth? Ai un peth sydd dan sylw yma, neu ydy hi'n cael ei defnyddio at sawl diben? Colofn newyddion sydd yma, felly mae'n broffesiynol yn hytrach na phersonol – mae'n wleidyddol hefyd, a'r bwriad yw darparu gwybodaeth i'r darllenwyr ynghylch Mudiad y Siartwyr.

5. **O ble mae'n dod?** Pam mae'n adrodd am y digwyddiadau hyn – beth yw'r cysylltiad? Papur newydd yn Llundain yw hwn, yn sôn am ddigwyddiadau yng Nghymru. Roedd un o'r siaradwyr (Mr Vincent) yn dod o Lundain, ac mae'n ymddangos fel siaradwr mewn sawl cyfarfod, ond mae gan y papur ddiddordeb hefyd mewn cyflwyno newyddion ynghylch Mudiad y Siartwyr, gan ei fod yn fudiad protestiadau gwleidyddol anferth sy'n crynhoi miloedd o gefnogwyr ac mae bwriad i gynnal gorymdeithiau i Lundain.

6. Pam cafodd y ffynhonnell ei hysgrifennu? Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer cynulleidfa o bobl sydd hefyd yn debygol o fod yn tueddu i'r Chwith o ran eu syniadau gwleidyddol, ac sydd hefyd fwy na thebyg yn cefnogi diwygio cymdeithasol, i roi gwybodaeth iddyn nhw am Fudiad y Siartwyr ac i greu argraff ffafriol o'r cyfarfodydd a lefel y gefnogaeth oedd yno. (Mae'n werth nodi, petaech chi'n anghytuno â'r syniadau mewn papur newydd, fyddech chi fwy na thebyg yn dewis peidio â'i ddarllen! Felly bydd mwyafrif darllenwyr y papur yn cytuno â'r hyn sydd ynddo. Dyw hi ddim yn debygol, felly, y bydd yn gytbwys iawn?? << **Mae'n syniad da trafod hyn, eto gan ddefnyddio cyfryngau modern yn esiampl!**).

7. Pa broblemau sydd yma i'r darlennydd modern? Pa rannau o'r ffynhonnell sy'n anodd eu deall? Pa wybodaeth ychwanegol gallai fod arnoch chi ei hangen i ddeall yn llawn beth mae'r ffynhonnell yn ei ddweud wrthydych chi? Sut mae cael gafael ar yr wybodaeth yma? Anogwch y myfyrwyr i feddwl am yr iaith sy'n cael ei defnyddio – ydy hi'n hawdd ei deall? Os nad yw hi, pam? Oes angen iddyn nhw ddefnyddio geiriadur i'w helpu? Os nad ydych chi'n deall beth mae ffynhonnell yn ei ddweud, fe gewch chi gamargraff o'r gorffennol a'r digwyddiadau sy'n cael eu disgrifio. Os nad ydych chi'n gwybod llawer am Siartiaeth, ydy hynny'n broblem? Sut mae dysgu mwy? **[Darllenwch am y pwnc; ewch i lyfrgell a chwilio am lyfrau; defnyddiwch y rhyngwryd i helpu – edrychwch ar yr ymarferiad Cyflwyniad i Chwiliadau Uwch Google yn adran Sgiliau Ymchwil y safle].**